



# Adroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg

Medi 2022 - Medi 2023

# Cynnwys

Cyflwyniad .....	3
Crynodeb Gweithredol .....	3
Sut ydym ni'n cydymffurfio â'n Safonau Cymraeg .....	4
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau .....	4
Safonau Llundio Polisi .....	7
Safonau Gweithredu .....	9
Safonau Cadw Cofnodion .....	13
Hybu'r Gymraeg trwy ein grantiau .....	13
Casgliadau ac argymhellion .....	15
Atebolrwydd .....	17

## Cyflwyniad

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gorff cyhoeddus anadrannol Deyrnas Unedig gyfan sy'n gyfrifol am ddsbarthu arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Rydym ni'n cefnogi gweithgareddau sy'n creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy – gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ariannwyd 750 o grantiau yng Nghymru gwerth £34.5 miliwn. Rydym bellach wedi bod yn gweithredu o dan ein henw newydd, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ers Ionawr y 31ain 2019. Cyn hyn, roeddem yn gweithredu fel y Gronfa Loteri Fawr ers 2004.

Rydym yn falch i weithredu fel corff dwyieithog ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru o'r radd flaenaf, yn ogystal â hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol gyda'n staff. Drwy hyn, rydym yn sicrhau ein bod yn cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau drwy ein grantiau.

Yn 2011, daeth Mesur y Gymraeg i rym sydd wedi sefydlu'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ers y 25ain o Ionawr 2017 mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn falch iawn i fod yn cyd-weithio â Chomisiynydd y Gymraeg ar weithredu ein Safonau Cymraeg. Mae rhestr lawn o'n Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i'w gweld yma yn ein hysbysiad [Cydydffurfio Terfynol \(PDF, 356KB\)](#)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cydydffurfiaeth â'n safonau Cymraeg gan amlygu ein llwyddiannau dros y flwyddyn 2022 – 2023. Rydym hefyd yn edrych ar unrhyw argymhellion neu gamau gweithredu sydd eu hangen yn y flwyddyn i ddod.

## Crynodeb Gweithredol

- Rydym yn falch fel sefydliad i nodi na dderbyniwyd yr un cwyn am y Gymraeg eleni.
- Rydym wedi lansio strategaeth newydd 'Cymuned yw'r man cychwyn' gan sicrhau bod yr holl waith ymgynghori, a'r deunyddiau newydd a grëwyd i gyd yn ddwyieithog er mwyn cynnal lansiad gwbl ddwyieithog ym mis Mehefin 2023.
- Mae ein Tîm Polisi wedi gwneud gwaith ymchwil yn benodol ar y ffactorau a all effeithio ar ddirywiad y Gymraeg fel y gwelir yn y cyfrifiad diwethaf, er mwyn adrodd yn ôl i'n Pwyllgor yng Nghymru ac ystyried goblygiadau i'n grantiau.
- Rydym wedi parhau i gefnogi ein deiliaid grant i reoli eu prosiectau'n ddwyieithog ac i hybu'r iaith Gymraeg drwy ein grantiau.
- Rydym wedi parhau i brofi deunyddiau gyda'n cwsmeriaid Cymraeg. Y flwyddyn yma fe brofwyd deunyddiau ein rhaglen newydd Cronfa'r Deyrnas Unedig gyda 2 sefydliad Cymraeg.
- Rydym wedi amlygu ein cynnwys Cymraeg drwy ein cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr.
- Rydym yn parhau i gynnal ein sianeli cymdeithasol yn ddwyieithog, a chynyddu niferoedd y ffilmiau dwyieithog.
- Rydym wedi creu cylchlythyr fisol ddwyieithog sy'n cael eu hanfon i dros 1,000 o'n deiliaid grant yng Nghymru.
- Rydym yn sicrhau bod ein digwyddiadau yn parhau i gael eu cynnal yn ddwyieithog gan alluogi sgysiaid Cymraeg rhwng ein rhanddeiliaid.

- Rydym wedi parhau i hysbysebu swyddi yn ddwyieithog ar gyfer swyddi Cymru a ledled y Deyrnas Unedig, gan sicrhau ein bod wedi ystyried anghenion ieithyddol y swyddi. Fe benodwyd pedwar o siaradwyr Cymraeg y flwyddyn hon. Mae 50% (23 allan o 46) o staff yng nghyfarwyddiaeth Cymru yn siarad Cymraeg.
- Mae ein Hwb Pobl, sydd yn galluogi staff i gofnodi amcanion perfformiad, a nodi gwyliau ac unrhyw absenoldeb arall, ar gael yn ei gyfanrwydd yn y Gymraeg.
- Rydym wedi anfon holiadur i'n staff i asesu eu sgiliau Cymraeg ac wedi edrych ar unrhyw adborth gan staff ar gyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gweithle.
- Rydym wedi parhau i gefnogi staff i ddysgu a gwella eu Cymraeg wrth gynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg a chynnal sgysiau anffurfiol rhwng ein dysgwyr a'n cyfieithydd mewnol.
- Rydym wedi parhau i gynnig hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 6 aelod o staff yn cwblhau eu hyfforddiant 'hanfodion Gweithle' drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn hon.
- Rydym wedi hybu ein diwylliant Cymraeg yn fewnol drwy ddathlu diwrnodau a gwyliau Cymreig.

## Sut ydym ni'n cydymffurfio â'n Safonau Cymraeg

Gweler dogfen sydd yn crynhoi sut yr ydym yn cydymffurfio â'n safonau yn gyffredinol ar ein gwefan yma: [Big Lottery Fund Corporate Plan 2016/17 \(tnlcommunityfund.org.uk\)](https://www.tnlcommunityfund.org.uk)

Gweler hefyd dogfen ar sut rydym yn Goruchwyllo, hybu a hwyluso cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg yma: [Supervising-promoting-facilitating-Welsh-Language-Standards-w.pdf \(tnlcommunityfund.org.uk\)](https://www.tnlcommunityfund.org.uk)

Mae gweithredu'r Safonau o fewn y sefydliad yn brofiad cadarnhaol iawn i ni gan iddo gryfhau'r gwasanaeth dwyieithog rydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid a'n deiliaid grant o ddydd i ddydd yn ogystal â'n galluogi ni i gynnig a darparu gwasanaethau Cymraeg i'n haelodau staff.

Mae'n galluogi ein Tîm Cymraeg i gydweithio'n agosach â rhai o'n timau canolog sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, gan gynnwys Adnoddau Dynol, Caffael a thimau'r rhaglenni ariannu Deyrnas Unedig gyfan. Mae hefyd wedi ein galluogi i weithio'n agosach â sefydliadau cyfrwng Cymraeg allanol i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg iddynt a'u cefnogi i wneud defnydd llawn o'r rhain. Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gweithredu Safonau o dan gategoriâu Cyflenwi Gwasanaethau, Llundain Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion.

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Rydym yn falch i allu cynnig gwasanaeth dwyieithog i'n ymgeiswyr a deiliaid grant drwy gydol oes eu grant. Mae llinell ymholiadau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi'i staffio gan siaradwyr dwyieithog, mae pob deunydd arweiniad ac ymgeisio ar gael yn ddwyieithog ac mae staff Cymraeg eu hiaith yn asesu ac yn rheoli grantiau ar gyfer grwpiau sydd wedi dewis cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae yn union hanner ein staff yng nghyfarwyddiaeth Cymru (23 allan o 46) yn siarad Cymraeg, gydag naw aelod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg tu allan i gyfarwyddiaeth Cymru. Mae dau o aelodau Pwyllgor Cymru yn rhugl yn y Gymraeg hefyd, ac mae ein cyfarfodydd Pwyllgor wedi cael ei gynnal yn ddwyieithog ers 2021. Gyda chymaint o siaradwyr Cymraeg o fewn y Gronfa felly, mae'n rhwydd i ni gynnig gwasanaethau Cymraeg i'n cwsmeriaid.

Ers y pandemig, mae ein ffordd o weithio wedi newid, gyda staff yn gweithio'n hybrid (h.y. cymysgedd o weithio gartref ac yn ein swyddfeydd), mae hyn yn bennaf yn effeithio ar ein safonau Cyflenwi Gwasanaethau wrth i fwy o gyfarfodydd ddigwydd ar-lein yn hytrach na wyneb yn wyneb. Bellach, ein prif gyswllt gydag aelodau o'r cyhoedd yw drwy ein llinell gymorth, neu mewn digwyddiad allgymorth, a hynny'n ddwyieithog. Er hyn, rydym yn parhau i rhoi lle amlwg i'r Gymraeg yn ein swyddfeydd wrth barhau i ddefnyddio adnoddau Cymraeg Gwaith ac arddangos ein siarter iaith yn ein swyddfeydd. Fel mae'r ffordd rydym yn gweithio yn newid, sicrhawn ein bod yn parhau i flaenoriaethu gwasanaeth dwyieithog i'n cwsmeriaid a'n staff. Noder isod ein llwyddiannau yn ymwneud â'r safonau cyflenwi gwasanaethau y flwyddyn hon:

## Strategaeth Newydd Ddwyieithog

Ym Mehefin 2023 fe lansiodd ein strategaeth newydd ledled y Deyrnas Unedig sef [Cymuned yw'r man cychwyn](#). Yn unol â safonau 33-45, mae pob deunydd sydd wedi cael ei greu i gyd-fynd â'r strategaeth ar gael yn y Gymraeg.



## Amlygu ein Cynnwys Cymreig

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi sicrhau ein bod wedi amlygu cynnwys Cymreig yn ein cylchlythyr misol at ein tanysgrifwyr. Mae'r cynnwys hwn yn amrywio o ganllawiau ar sut i reoli eich grant yn ddwyieithog, dathlu prosiectau sydd yn hybu'r iaith Gymraeg, dathlu diwrnodau a digwyddiadau Cymreig a chlywed gan ein Swyddogion Ariannu Cymraeg.

Rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn rhannu'r cynnwys hwn ar ein Cyfryngau Cymdeithasol gan rannu'r postiadau'n ddwyieithog.

Ym mis Gorffennaf 2023 fe rannwyd fideo o'n Swyddog Ariannu, Eirian Jones yn cyflwyno sic eic i Gymdeithas Godre Hiraethog Pentrefoelas a'r Cylch. Fe dderbyniant grant gennym i gynnal digwyddiadau misol dros flwyddyn i annog mwy o aelodau hŷn o'r gymuned i ddod at ei gilydd a chymdeithasu i fynd i'r afael ag ynysrwydd gwledig ac unigrwydd, iechyd meddwl gwael a diffyg hyder. Oherwydd bod y cais wedi cael ei gyflwyno i ni drwy gyfrwng y Gymraeg a gyda mwyafrif o'r aelodau yn iaith gyntaf Cymraeg, cafodd y sic eic ei gyflwyno iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.



## Y Gymraeg mewn gweithdai ariannu

Yn unol â safonau 24- 29, gydag unrhyw ddigwyddiad allanol rydym yn parhau i ystyried yr iaith Gymraeg o'r cychwyn wrth holi unrhyw fynychwyr yn y gwahoddiad neu ffurflen gofrestru os hoffent ddefnyddio'r Gymraeg. Yn dilyn yr ymateb, mae gennym y trefniadau priodol ar waith, yn y mwyafrif o'n digwyddiadau, lle mae o leiaf un person yn nodi yr hoffent ddefnyddio'r Gymraeg mewn digwyddiad, rydym yn defnyddio cyfieithydd ar y pryd i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg. Rydym yn agor y digwyddiad yn ddwyieithog a phwysleisio bod modd i bobl gyfrannu i'r digwyddiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ym mis Ionawr 2023 fe wnaethom gynnal digwyddiad ariannu yn yr Iorwerth Arms, Bryngwran yn Sir Fôn i ddarparu grwpiau cymunedol gyda chynghor am y grantiau Loteri Genedlaethol sydd ar gael. Cafodd y digwyddiad ei gyflwyno yn ddwyieithog gan ein Pennaeth Cyfathrebu, Ruth Bates cyn i'n Swyddog Ariannu, Hywel Lovgreen cynnal cyflwyniad drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd i gyfieithu i'r Saesneg i fynychwyr di-Gymraeg. Cynhaliwyd sesiynau un wrth un gyda'r grwpiau wedi'r cyflwyniad a'r mwyafrif o'r trafodaethau yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg gyda dau o'n Swyddogion Ariannu Cymraeg Hywel Lovgreen ac Eirian Jones.



Yn y Llun: Swyddog Ariannu Hywel Lovgreen yn cyflwyno mewn digwyddiad Ariannu yn Iorwerth Arms, Bryngwran, Sir Fôn

## Recriwtio Gymraeg

Yn unol â safon 132, rydym yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg gyda phob swydd wag wrth cyfeirio at ein strategaeth sgiliau iaith a luniwyd yn 2020. Mae gennym hefyd rhestr wirio a grëwyd yn 2021 sydd yn rhestru'r camau gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer hysbysebu swydd, gohebiaeth a chyfweliadau â dechreuwyr newydd. Eleni, mae ein tudalen we swyddi ar ein gwefan wedi newid ac mae'r Gymraeg a'r Saesneg i gyd i'w weld ar un safle. Yn flaenorol roedd tudalen we ar wahân ar gyfer hysbysebion Cymraeg. Golyga hyn felly fod y Gymraeg yn haws i ddod o hyd iddi a rydym yn cydymffurfio â safon 133A.

Mae'r holl recriwtio ar gyfer rolau yng Nghymru a gyda chylch gwaith ledled y DU yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog. Rydym hefyd yn defnyddio gwefannau recriwtio Cymraeg, Golwg 360, Lleol a Safle Swyddi ar gyfer swyddi Cymraeg 'dymunol' ac 'hanfodol'. Ers mis Medi 2022 mae 27 swydd wedi cael eu hysbysebu yn ddwyieithog, gyda pedwar o'r swyddi yng Nghymru yn unig gyda'r gweddill ledled y DU. Cafodd y pedwar swydd a gafodd eu hysbysebu yng Nghymru yn unig eu nodi fel Cymraeg 'dymunol', ac fe wnaethom recriwtio dau siaradwr Cymraeg. Cafodd cyfanswm o bedwar siaradwr Cymraeg eu recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys swyddi ledled y DU.

## Safonau Llunio Polisi

Mae gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol amrywiaeth eang o bolisiau sy'n egluro sut y byddwn yn cynnal ein gwaith a'n gwasanaethau. Pan fyddwn yn adolygu un o'n polisiau neu'n datblygu polisi o'r newydd, byddwn yn ystyried unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg a chyfleodd i ddefnyddio'r iaith.

Gyda phob polisi newydd, ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a byddwn yn meddwl am ffyrdd y gall polisi gael effaith gadarnhaol ar gyfleodd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn yr un modd, wrth ymgynghori neu wneud gwaith ymchwil ar gyfer datblygu polisi, byddwn yn ystyried a gofyn barn am yr effaith ar y Gymraeg.

Yn unol â safon 90, ym mis Ionawr 2020 gwnaethom gyhoeddi ein polisi newydd ar y Gymraeg a'n prosesau dyfarnu grantiau. Gellir ei weld ar ein gwefan yma: [Welsh-language-in-grants-policy-w.pdf \(tnlcommunityfund.org.uk\)](https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh-language-in-grants-policy-w.pdf)

Rydym wedi amlygu'r polisi hwn yn ddiweddar yn ein canllawiau newydd i'n staff er mwyn gwneud hi'n eglur beth yw ein disgwyliadau ni o'n deiliaid grant o ran ein safonau Cymraeg.

Gweler isod ein datblygiadau eraill y flwyddyn hon o ran ein safonau llunio Polisi:

## Ymgynghori ar gyfer ein strategaeth newydd

Yn ystod ein proses ymgynghori yn arwain at ein strategaeth newydd **Cymuned yw'r man Cychwyn** a lansiwyd ym Mehefin 2023, buom yn ymgynghori â grwpiau ac aelodau amrywiol o'r gymuned i sicrhau ein bod yn cynnwys barn pawb, gan gynnwys siaradwyr a chymunedau Cymraeg.

### Gwaith profi deunyddiau gyda chwsmeriaid

Gyda phob rhaglen ariannu newydd neu unrhyw newidiadau i'n rhaglenni ariannu yng Nghymru neu ledled y DU, rydym yn profi ein deunyddiau ymgeisio a chanllawiau gyda chwsmeriaid Cymraeg.

Eleni, cyn lansio ein rhaglen newydd ledled y DU, [Cronfa'r Deyrnas Unedig](#). Fe brofom y deunyddiau gyda 2 sefydliad Cymraeg. Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol, ac roedd y sefydliadau yn gwerthfawrogi ein bod wedi profi'r deunyddiau yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.

O'n safbwynt ni yn fewnol, gan fod ein timau yng Nghymru'n gweithio â'n Tîm Dylunio Gwasanaeth ar ddatblygu rhaglenni newydd, profi'r deunyddiau gyda chwsmeriaid a hefyd profi'r deunyddiau ar ein systemau mewnol, mae'n cryfhau dealltwriaeth y Tîm Dylunio Gwasanaeth a thimau eraill ledled y Deyrnas Unedig am yr angen i sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei hystyried yr holl ffordd drwy'r broses.

## Papur ar yr iaith Gymraeg i Bwyllgor Cymru

Yn dilyn canlyniadau'r cyfrifiad diweddaraf yn 2021, a gofnododd y gyfran isaf erioed o siaradwyr Cymraeg yn erbyn ffigyrau'r boblogaeth, mae ein Tîm Polisi wedi bod yn gwneud ymchwil i'r iaith Gymraeg ar ffactorau posibl tuag at y gostyngiad hwn mewn siaradwyr Cymraeg. Fe gyflwynwyd y papur hwn i Bwyllgor Cymru yn eu Cyfarfod Pwyllgor ar y 21ain o Fehefin 2023 i drafod y rôl y gall Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ei chwarae i gynnal yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau. Mae ein Swyddog Iaith wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Polisi i rannu ymchwil a chefnogi'r gweithredoedd pellach.

### Perthynas agos gyda'r Tîm Polisi

Mae pob aelod o Gyfarwyddiaeth Cymru yn cwrdd yn wythnosol dros Teams er mwyn cael diweddariad gan bob Tîm yng Nghymru gan gynnwys y Tîm Polisi, Cyfathrebu ac Ariannu.

Mae'r Tîm Cyfathrebu sy'n cynnwys ein Swyddog Iaith, Cyfieithydd Mewnol a'n Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cyfarfod yn wythnosol dros Teams hefyd ac yn ddiweddar mae aelod o'r Tîm Polisi yn mynychu'r cyfarfod i roi diweddariad ar yr hyn maent yn gweithio arno.

Golyga hyn felly fod y Swyddog Iaith yn cael gwybod am unrhyw bolisi newydd neu newidiadau i unrhyw bolisi mae'r Tîm yn gweithio arno a allai effeithio ar yr iaith Gymraeg.



## Safonau Gweithredu

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn sefydliad ledled y Deyrnas Unedig gyda'r mwyafrif o'n gwasanaethau corfforaethol wedi'u lleoli mewn swyddfeydd y tu allan i Gymru. Pan ddechreuodd y Gronfa weithio o dan y safonau yn 2017 felly, y Safonau Gweithredol oedd y rhai mwyaf heriol i'w bodloni fel sefydliad.

Rydym wedi gwneud cynnydd mawr yn y chwe blynedd diwethaf ac mae'r Gymraeg erbyn hyn wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y sefydliad gyda thimau ledled y Deyrnas

Unedig yn meddwl am yr iaith ar gychwyn unrhyw ddeunydd, ymgyrch neu raglen newydd. Yn unol â safon 94 rydym wedi datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol sef 'Yr iaith Gymraeg... ein addewid i chi' ac rydym wedi cyhoeddi'r polisi hwn ar ein mewnrwyd.

Rydym yn sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o'u hawliau wrth ddechrau eu swydd. Yn unol â'r polisi hwn mae cytundeb eu swydd yn cael ei gynnig yn y Gymraeg ac unrhyw ohebiaeth, dogfennau a ffurflenni wedyn yn gallu cael eu darparu yn y Gymraeg.



### Ein staff

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn annog staff i siarad Cymraeg ar bob achlysur posibl ac yn cefnogi staff i wella eu sgiliau iaith, yn ddysgwyr a siaradwyr rhugl. Byddwn yn meithrin agwedd gadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg yn y man gwaith ac yn chwilio am gyfleoedd i hybu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg ein staff.

### Egwyddor

Byddwn bob amser yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ein gwaith yng Nghymru. Rydym yn cydnabod hawl unigolion i gynnal eu busnes a byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg, os ydynt yn staff neu gwsmeriaid.

Am wybodaeth bellach ewch i:

<http://bigonline/directorates/wales/tudalen-y-gymraeg>

Neu cysylltwch â Thîm y Gymraeg ar:  
**cymorthcymraeg**  
**@cronfagymunedolyg.org.uk**  
**0300 123 0735**

### Byddwn yn

- sicrhau y gallwch ddefnyddio eich Cymraeg cryn gymaint â phosibl yn y swyddfa ac wrth siarad â chwsmeriaid
- eich cefnogi i ddysgu neu wella eich sgiliau Cymraeg drwy gyrsiau/cyfeillio
- rhoi'r cyfle i chi dderbyn eich cytundeb gwaith, cyfathrebiad personol, trefnu gwyliau a hyfforddiant yn y Gymraeg
- darparu intranet dwyieithog a pholisïau adnoddau dynol yn y Gymraeg
- darparu peth hyfforddiant i staff yn y Gymraeg
- parchu a chofio eich dewis iaith

### Gallwch chi

- fod yn hyderus wrth ddefnyddio eich sgiliau Cymraeg yn y gweithle
- gofyn am ddogfenau cyflogaeth, hyfforddiant neu wyliau yn y Gymraeg
- gofyn i gael dysgu neu wella eich sgiliau Cymraeg yn ystod oriau gwaith
- gwneud cwynion ac ymateb i gwynion yn y Gymraeg

Dyma fanylu ar rai o'n llwyddiannau o ran ein Safonau Gweithredol eleni:

## Hwb Pobl

Mae gennym system fewnol yn y Gronfa lle gall staff nodi eu hamcanion perfformiad a gweld eu manylion cyflogaeth ynghyd â chofnodi gwyliau ac unrhyw absenoldeb o'r gwaith i gyd ar un system. Enw'r system hon yw 'People Hub'. Tan 2021 roedd 'People Hub' dim ond ar gael yn Saesneg ond fe ddechreuwyd y gwaith o gyfieithu'r hwb y llynedd. Yn unol â safon 98 a 100, un o'n prif lwyddiannau eleni yw bod 'People Hub' neu Hwb Pobl ar gael yn ei gyfanrwydd yn yr iaith Gymraeg.

## Asesu Sgiliau Cymraeg staff

Yn unol â safon 123, rydym yn anfon holiadur yn flynyddol i'n staff ei gwblhau er mwyn asesu faint o staff sydd yn siarad Cymraeg yn y sefydliad ac ar ba lefel, hynny yw, pa mor hyderus ydynt yn siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Rydym hefyd yn holi am adborth o ran unrhyw ffynonellau yr hoffai ein staff ein gweld yn eu darparu i roi cymorth iddynt i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Fe anfonwyd yr holiadur ym mis Mehefin eleni a chafodd ei gwblhau gan 49 aelod o staff (40 allan o 46 staff yng nghyfarwyddiaeth Cymru a 9 aelod o staff sydd yn siarad neu'n dysgu Cymraeg ond yn gweithio y tu allan i Gyfarwyddiaeth Cymru). Fe gwblhaodd 19 aelod o staff yr holiadur drwy gyfrwng y Gymraeg, ac fe gwblhaodd 30 aelod o staff yr holiadur yn Saesneg.

Dengys yr holiadur bod nifer uchel o'n staff yn teimlo'n hyderus yn eu sgiliau gwrando a darllen Cymraeg gyda 21 aelod yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n gallu deall y mwyafrif o destunau Cymraeg cymhleth a syml." Lle mae'r nifer o staff sy'n teimlo'n hyderus yn siarad ac ysgrifennu

yn is, gydag 13 yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n teimlo'n ddigon hyderus i lunio adroddiad/ adroddiad asesu/ dogfen ymateb i ymgynghoriad yn y Gymraeg." Ac 14 yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n mynegi fy hun yn llawn ac yn fanwl, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth".

Yn yr holiadur roedd cyfle i'n staff roi adborth ar ba adnoddau neu wasanaethau yr hoffent eu derbyn i ddefnyddio eu Cymraeg yn fwy yn y gweithle. Roedd llawer o'r sylwadau yn gadarnhaol tuag at y sgysiaau anffurfiol y mae ein cyfieithydd mewnol yn eu cynnal dros Teams gyda grŵp o'n dysgwyr ar hyn o bryd ac yn awyddus i'r sgysiaau hyn barhau. Roedd y rhai sydd yn mynychu cyrsiau drwy cwmni 'Dysgu Cymraeg' yn awyddus i barhau i fynychu'r cyrsiau hyn.

## Dysgwyr Cymraeg o fewn y Gronfa

Yn unol â safonau 125-127 rydym yn annog ein staff i ddysgu neu gwella eu Cymraeg yn y Gronfa gyda nifer o gyfleoedd gwahanol sydd yn addas i'r dysgwyr boed hynny yn gwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn, cwrs ar-lein neu gwrs hunan-ddysgu. Rydym yn gweithio'n agos gyda chwmni '[Dysgu Cymraeg](#)' ac yn trafod yr opsiynau sydd ar gael i ddysgu Cymraeg yn anwythiad dechreuwyd newydd i'r Gronfa.

Mae wyth aelod o staff yn y Gronfa yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, chwech y tu allan i gyfarwyddiaeth Cymru – y cyfanswm uchaf o ddysgwyr rydym erioed wedi cael. Fel y nodir uchod rydym wedi parhau â'r momentwm o ddysgu Cymraeg wrth i'n cyfieithydd mewnol, Megan Martin, gynnal sgysiaau anffurfiol drwy Teams i'n dysgwyr yn wythnosol sydd wedi cael adborth cadarnhaol iawn. Rydym yn defnyddio adnoddau gan gwmni Dysgu Cymraeg i gynnal y sgysiaau ac mae ein dysgwyr yn mynychu cyrsiau Dysgu Cymraeg.



## Hyfforddiant Gymraeg

Mae disgwyl i bob aelod newydd o staff i'r Gronfa gwblhau modiwlau hyfforddi 'Hanfodion Gweithle' ac mae disgwyl i bob aelod o staff eistedd y modiwlau yn flynyddol. Mae naw modiwl i gyd i'w cwblhau ar ein system fewnol a maent i gyd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r modiwlau hyn yn cynnwys: Cod Moeseg; Diogelu Data; Iechyd a Diogelwch; Diogelu; Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant; Ymwybyddiaeth gwrth-dwyll a llygredigaeth; Ein Fframwaith Statudol a Rheoleiddiol a Diogelwch TG.

Rydym yn bodloni safon 124 felly wrth ddarparu pob hyfforddiant hanfodol sydd gennym yn y Saesneg yn y Gymraeg hefyd gan gynnwys iechyd a diogelwch.

Fe gwblhaodd 6 aelod o staff y modiwlau hanfodion gweithle drwy gyfrwng y Gymraeg eleni.

## Ymwybyddiaeth o'n diwylliant Gymraeg a phwysigrwydd y safonau

Yn unol â safon 128, modiwl sydd yn cael ei gynnwys yn yr Hanfodion Gweithle sydd yn ofynnol i bawb yn y sefydliad ledled y Deyrnas Unedig ei gwblhau yn flynyddol yw ein modiwl Ymwybyddiaeth Iaith sy'n cynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru.

Ac yn unol â safon 129 mae pob aelod o staff newydd i'r Gronfa yng nghyfarwyddiaeth Cymru yn cael sesiwn ymsefydlu gyda'r Swyddog Iaith. Yn y sesiwn hon mae'r Swyddog yn trafod ein dyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg ac am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Er mwyn hybu ein diwylliant Gymraeg a hyrwyddo'r iaith rydym yn dathlu diwrnodau a gwyliau Cymreig yn fewnol yn y Gronfa, yn ogystal ag ymgyrchoedd

cyfathrebu allanol, ar y cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr:

## Diwrnod Shwmae/ Sumae (15eg Hydref)

Ym mis Hydref 2022 fe greom fideo i rannu ar ein cyfryngau cymdeithasol o wahanol aelodau o staff yn dweud shwmae neu su'mae gan bwysleisio ein bod yn falch o gefnogi diwrnod Shwmae/ Sumae sydd yn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg.

## Diwrnod Hawliau'r Gymraeg (7fed Rhagfyr)

Ym mis Rhagfyr 2022 fe dynnom sylw at Ddiwrnod Hawliau'r Gymraeg y Comisiynydd wrth greu fideo i'w rannu ar sut rydym yn darparu gwasanaeth hollol ddwyieithog i'n cwsmeriaid yn ogystal â hybu'r iaith yn fewnol drwy alluogi i'n staff i ddysgu a gwella eu Cymraeg.

## Dydd Miwsig Cymru (10fed Chwefror)

I ddathlu dydd Miwsig Cymru bu ein Swyddog Iaith Gymraeg yn ymweld â phrosiect Sŵn Llwythol (Tribal sounds) y sefydliad SOEL Connect yng Nghaerdydd a dderbyniodd arian trwy ein rhaglen [Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol Cymru](#). Mae'r prosiect yn archwilio'r Iaith Gymraeg a thraddodiadau Affricanaidd neu Garibiaidd eu hunain, trwy gyfres un flwyddyn o weithdai sydd yn dod â'u grwpiau canu a chorau lleol eraill ynghyd i rannu a gwerthfawrogi diwylliannau amrywiol. Fe greom fideo o'r ymweliad i rannu ar ein cyfryngau cymdeithasol a chafodd sylw ar gyfryngau Cymraeg gydag eitem ar Prynawn Da S4C.

## Dydd Gŵyl Dewi (1af Mawrth)

Fe ddathlom Ddydd Gŵyl Dewi yn fewnol yn y Gronfa wrth i sawl aelod o staff gystadlu yn ein heisteddfod flynyddol gyda thestunau Cymreig er mwyn hybu'r iaith a'r diwylliant Cymreig gydag ein staff ledled y sefydliad. Fe rannom y digwyddiad yn allanol hefyd ar ein cyfryngau cymdeithasol.

## Wythnos y Cynnig Gymraeg (Mai 15-19)

Yn ystod wythnos y Cynnig Gymraeg tynnem sylw at brosiect Tir Dewi a dderbyniodd arian trwy ein rhaglen [Pawb a'i Le](#) er mwyn datblygu ei ddarpariaeth bresennol o gefnogi ffermwyr mewn argyfwng. Mae'r gwaith yn codi ymwybyddiaeth o'r materion a'r gefnogaeth sydd ar gael trwy ymyrraeth gynnar a normaleiddio'r diwylliant o geisio am help. Fe dderbyniodd Tir Dewi ei Gynnig Gymraeg gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am ei wasanaethau dwyieithog ac fe amlygwyd hyn mewn blog a rannom yn ein cylchlythyr a'n cyfryngau cymdeithasol.



**EISTEDDFOD Y GRONFA**  
**28/02/23**  
YN YSTOD AMSER CINIO  
DURING LUNCH TIME

**RHESTR DESTYNAU**  
LIST OF TOPICS

**YMUNWCH!**  
**JOIN US!**

- Celf / Art  
Delwedd sy'n cynrychioli eich gwyliau pan yn blentyn.  
A piece that represent a holiday when you were young.
- Dyfeisio cartŵn / Invent a Cartoon.  
Dyfeiswch gymeriad cartŵn newydd ar gyfer y Gronfa!  
Invent a new Cartoon Character for the Fund!
- Cyflwyno Resait Gymreig / Welsh Recipe  
Cyflwyno Resait Cymreig, gyda delwedd o'r bwyd.  
Presentation of a Welsh recipe with an image of the food.
- Cerdd / Poem  
Cerdd ar y thema 'Pobl'  
A poem on the theme 'People'
- Limerig / Limerick  
Rhaid cynnwys 'Es i ymweld â phrosiect'  
Must include 'i visited a project'

I'w cyflwyno yn ystod yr Eisteddfod / To be presented during the Eisteddfod:

- Cyflwyniad o'ch hoff chwedl Gymreig / A presentation on your favourite Welsh Legend.
- Cyflwyniad o'ch hoff gerdd Gymraeg / A presentation of your favourite Welsh Poem.
- Darn heb ei atalnodi (Un person i bob rhanbarth) / A piece without full top (One person from each region)

Rhaid cyflwyno'r Testynau i Mali Llyfni Neu Gareth Hughes erbyn 5yp ar y 27/02  
Every item should be presented to Mali Llyfni or Gareth Hughes by 5pm on the 27/02

## Safonau Cadw Cofnodion

I fodloni gofynion y safonau cadw cofnodion (Safonau 141 – 148), rydym yn cadw copïau o:

- Gwynion rydym yn eu derbyn mewn perthynas â'n cydymffurfiad â'r Safonau. Rydym yn falch fel sefydliad i nodi na dderbyniwyd yr un cwyn am y Gymraeg eleni.
- Sgiliau iaith cyflogeion yn dilyn yr holiadur sgiliau Cymraeg cydweithwyr ac unrhyw adborth o ran ffynonellau dysgu Cymraeg i'w darparu
- Nifer o gydweithwyr sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant a ddarperir yn Gymraeg
- Aseidiadau rydym yn eu cynnal mewn perthynas â sgiliau Cymraeg y gall fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu wag a faint o rolau a hysbysebwyd sy'n mynnu sgiliau Cymraeg fel hanfodol neu ddymunol.

## Sesiynau Dwyieithrwydd ar Waith

Ar y cyd gyda staff Comisiynydd y Gymraeg rydym wedi parhau i ddarparu hyfforddiant i'n deiliaid grant ar sut i reoli eu prosiectau'n ddwyieithog. Cynhaliwyd y sesiynau ym mis Rhagfyr 2022 a mis Medi 2023. Yn y sesiwn rydym yn esbonio beth yw gofynion ein grant o ran yr iaith Gymraeg. Mae tîm y Comisiynydd hefyd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg mewn prosiectau gyda chynngor ar ddylunio dwyieithog mewn poster a chyfryngau cymdeithasol ac yn rhoi gwybod am yr adnoddau sydd ar gael i helpu gyda chyfieithu a phrawf ddarllen.

## Canllawiau newydd ar brosiectau dwyieithog

Rydym wedi creu canllawiau newydd i'w defnyddio i gydweithwyr yn fewnol ac i ddeiliaid grant ar brosiectau dwyieithog. Yn ein canllawiau mewnol rydym wedi egluro beth yw ein disgwyliadau o'n deiliaid grant o safbwynt ein safonau. Rydym wedi creu canllawiau ar wahân i'w hanfon at ein deiliaid grant yn eu hannog i greu canllaw prosiect dwyieithog eu hunain er mwyn dangos eu bod wedi ystyried yr iaith Gymraeg a sut maent yn mynd i gyflwyno eu prosiect yn ddwyieithog. Rydym wedi cyhoeddi y canllawiau ar ein gwefan yma: [Planning-a-bilingual-project-guide-w.pdf](https://tnlcommunityfund.org.uk/Planning-a-bilingual-project-guide-w.pdf) ([tnlcommunityfund.org.uk](https://tnlcommunityfund.org.uk))

Mae'r canllawiau yn cynnwys nifer o bwyntiau i ystyried o ddefnyddio'r Gymraeg mewn deunyddiau ysgrifenedig, yn ddigidol, wrth drefnu digwyddiad, hysbysebu swydd ac yn y blaen. Rydym yn annog deiliaid grant gyda chynllun iaith gref i ymgeisio am y Cynnig Gymraeg.

## Hybu'r Gymraeg trwy ein grantiau

Gan mai prif ddiben Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw rhoi grantiau i'n cymunedau mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod ein deiliaid grant yn rheoli eu prosiectau'n ddwyieithog er mwyn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru.

Yn unol â safon 90, dyma rai pethau ychwanegol yr ydym wedi'u gwneud eleni i sicrhau bod ein deiliaid grant yn ystyried pa effaith mae eu grant yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg:

## Gwyliau Cymraeg

Rydym wedi parhau i gefnogi gwyliau sydd yn hybu'r diwylliant ac iaith Gymraeg drwy ein grantiau:

### Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin (29 Mai - 3 Mehefin 2023)

Fe dynnom sylw at Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri gan greu blog ar brosiectau rydym wedi'u hariannu yn yr ardal a'i rannu yn ein cylchlythyr ac yn ein cyfryngau cymdeithasol.

## Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd (5-12 Awst 2023)


Bu cydweithwyr yn bresennol mewn digwyddiadau ar faes yr Eisteddfod drwy gydol yr wythnos gan gynnwys mynychu digwyddiad Comisiynydd y Gymraeg ar hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle. Roedd gennym hefyd fwrdd yn Hwb y Trydydd Sector ar y maes a oedd yn gyfle da i rwydweithio ag elusennau Cymraeg a rhoi cymorth ariannu i ymwelwyr yr Eisteddfod drwy gyfrwng y Gymraeg. Derbyniodd yr Eisteddfod ei hun arian gan y Gronfa er mwyn creu'r Pentref Plant ar faes yr Eisteddfod. Fe greom blog ar ein gweithgareddau yn yr Eisteddfod a'i rannu yn ein cylchlythyr.

AWST 17, 2023 | TNJ COMMUNITYFUNDWALES

### Dathlu buddsoddiad Y Loteri Genedlaethol i gymunedau Cymreig yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd

Bu staff Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn brysur yn sgwrsio gydag ymwelwyr yr Eisteddfod ym Moduan am eu grantiau ac yn ymweld â rhai o'r prosiectau gwych a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Braf oedd cael bod yn rhan o Hwb y Trydydd Sector ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol wythnos diwethaf. Cafodd Nia Hughes, Rhun Dafydd, Eirian Jones a Hywel Lovgreen (yn y lluniau isod) y cyfle i sgwrsio a chynghori pobl ar ymgeisio am grantiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae'r grantiau hyn yn bosib diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.



Dilynwch trwy e-bost

Cofnodwch eich cyfeiriad e-bost i ddilyn y blog yma, a derbyn hysbysiadau o negeseuon newydd dros e-bost.

**Dilyn**

Join 2,108 other subscribers

Chwilio

Negeseuon diweddar

- Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn...

## Gwyliau'r Mentrau Iaith

Rydym yn cefnogi mudiadau sydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Gweler rhai enghreifftiau isod o wyliau rydym wedi cefnogi eleni gan y mentrau iaith:

Cafodd **Menter Iaith Bro Morgannwg** grant gennym er mwyn datblygu ei gŵyl Gymraeg blynyddol, **Gŵyl Fach y Fro** a gafodd ei chynnal ar yr 20fed o Fai 2023. Defnyddiwyd yr arian i ehangu'r llwyfan cymunedol i roi'r un cyfle i bob plentyn yn yr ardal i fod yn rhan o'r digwyddiad cymunedol. Gwnaethant hyn drwy gynnal gweithdai mewn ysgolion Cymraeg gan artistiaid llwyddiannus a phroffesiynol i ddatblygu sgiliau a hyder y plant cyn yr ŵyl.



Derbyniodd **Menter Iaith Sir Caerffili** grant Arian i Bawb Loteri Genedlaethol Cymru yn dilyn llwyddiant ei gwyl flynyddol '**Ffilifest**', sy'n dathlu Cymreictod, treftadaeth a diwylliant lleol. Defnyddiwyd y grant i ddatblygu'r digwyddiad ymhellach trwy gynnal wythnos o weithgareddau cyn y prif ddiwyddiad ar y 10fed o Fehefin 2023 yn ogystal ag ychwanegu at y raglen o weithgareddau.

Derbyniodd **Menter Caerdydd** arian ar gyfer ei brosiect **Allgymorth Cymunedol Tafwyl 2023**. Defnyddiwyd yr arian i gynnal gweithdai a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar Tafwyl i ysgolion a hybiau cymunedol mewn mannau difreintiedig yn nwyrain Caerdydd. Roedd y gweithdai a gweithgareddau hyn yn rhoi blas i bobl ifanc a theuluoedd ar yr hyn oedd ar gael yn Tafwyl.

## Casgliadau ac argymhellion

Bu'r adroddiad yn gyfle i edrych yn ôl ar safle'r Gymraeg o fewn y Gronfa yn ystod y flwyddyn 2022-2023. O fewn yr adroddiad, edrychwyd ar Safonau Cydymffurfio, Cyflenwi Gwasanaeth, Llundio Polisiâu a Chadw Cofnodion. Edrychom hefyd ar sut rydym wedi hybu diwylliant a iaith Gymraeg drwy ein grantiau gyda digwyddiadau amrywiol dros y flwyddyn diwethaf. Cesglir bod y Gronfa wedi parhau i ddatblygu safle'r Gymraeg a gwasanaethau dwyieithog, wedi gwneud newidiadau effeithlon, ac yn falch o'r ddarpariaeth Gymraeg y gallwn ei chynnig yn fewnol ac yn allanol.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, awgrymir ein bod yn blaenoriaethu'r ffactorau isod:

- **Newidiadau i'n rhaglenni ariannu** – Yn dilyn ein strategaeth newydd byddwn yn lansio ein rhaglenni ariannu newydd ym mis Ebrill 2024 a bydd yr holl broses yn ffactorio'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ffurflenni cais, ffurflenni ymgeisio am grant. Adnewyddu'r safle we <https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh> a chynnal sesiynau gwybodaeth ar-lein a digwyddiadau ledled Cymru yn ddwyieithog.
- **Parhau i annog cydweithwyr i ddysgu Cymraeg** – Cam gweithredu yw parhau i gynnal y berthynas gyda chwmnïoedd Cymraeg Gwaith a rhannu'r cyrsiau sydd ar gael yn gyson gyda cydweithwyr. Fe wnawn barhau hefyd i gynnal y sgysiau anffurfiol gydag ein cyfieithydd mewnol a dysgwyr drwy Teams. Bydd y dull hwn yn helpu i gynnal y momentwm yr ydym wedi'i greu o amgylch datblygu sgiliau Cymraeg cydweithwyr ymhellach.
- **Tudalen we ar ein Safonau Cymraeg** - Mae'r holl wybodaeth am ein safonau Cymraeg i'w gweld ar ein gwefan yma: [Welsh Language Standards | The National Lottery Community Fund \(tnlcommunityfund.org.uk\)](https://www.welshlanguagestandards.org.uk). Nod ar gyfer y flwyddyn nesaf yw ail-ddylunio ein tudalen we ar ein safonau a sicrhau bod yr holl wybodaeth a dogfennau yn gyfredol.
- **Parhau i roi cymorth i'n prosiectau** – Ar ôl derbyn adborth cadarnhaol yn dilyn ein sesiynau 'Dwyieithrwydd ar waith' rydym yn bwriadu parhau i gynnal yr hyfforddiant hwn i'n deiliaid grant.
- **Parhau i hybu diwylliant Cymraeg** – Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, mae'r Gronfa yn gwneud gwaith helaeth o hyrwyddo diwylliant Cymraeg yn fewnol drwy ddatlu diwrnodau a gwyliau Cymraeg. Rydym yn bwriadu parhau i ddatlu'r diwrnodau hyn yn y flwyddyn i ddod. Yn ogystal, mae'n bwysig i ni barhau i hybu'r Gymraeg drwy ein grantiau a hyrwyddo prosiectau Cymraeg drwy ein cyfryngau cymdeithasol a'n cylchlythyr.
- **Diweddarau Timau ledled y DU am y safonau** - Oherwydd ein bod yn sefydliad ledled y Deyrnas Unedig a gyda phosibilrwydd o staff newydd yn dod i mewn nad ydynt yn ymwybodol o'n Safonau Cymraeg, mae angen sicrhau bod cydweithwyr ledled y DU yn parhau i gael diweddariad am ein safonau. Cam y medrwn ei gymryd i sicrhau hyn yw i'r Swyddog Iaith drefnu cyfarfodydd dros y flwyddyn nesaf gyda thimau ledled y DU i'w diweddarau ar ein safonau, yn ogystal â rhoi diweddariad yn gyson i'n rhanbarthau yng Nghymru.
- **Cyfieithu unrhyw bolisiau sydd wedi eu diweddarau i'r Gymraeg** – Mae rhai o'n polisiau a nodir yn safonau 101 – 107 yn cael eu diweddarau gan ein Tîm Pobl ar hyn o bryd, felly mae angen sicrhau bod y rhain i gyd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg cyn iddynt gael eu cyhoeddi yn fewnol ac wedi eu rhoi ar ein mewnrwyd.
- **Datblygu'r Gymraeg ar ein mewnrwyd** – Er, yn unol â safon 118 mae'r mwyafrif o dudalen hafan ein mewnrwyd ar gael yn y Gymraeg. Mae erthyglau newyddion yn cael eu postio'n wythnosol i'r dudalen ac rydym yn edrych ar sut y gallwn sicrhau bod y rhain ar gael yn Gymraeg hefyd.



## Atebolrwydd

Os hoffech gysylltu â ni ynglŷn â'n Safonau Cymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, anfonwch e-bost at [cymorthcymraeg@cronfagymunedolyg.org.uk](mailto:cymorthcymraeg@cronfagymunedolyg.org.uk).